# Adolygiadau Cymunedau dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2025 - Cynigion Drafft Cychwynnol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Medi 2025

This document is also available in English.

# Rhagair

**Cynigion Drafft ar gyfer Cymunedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein cynigion drafft ar gyfer cymunedau Bwrdeistref Sirol Conwy. Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a Chylch Gorchwyl y Cyngor.

Mae tegwch wedi'i wreiddio'n un o egwyddorion canolog y ddeddfwriaeth, ac wedi arwain y Cyngor drwy gydol y broses hon. Yn unol â'n rhwymedigaethau statudol, rydym hefyd wedi ystyried datblygiadau'r dyfodol ac wedi cael amcanestyniadau pum mlynedd o nifer yr etholwyr.

Wrth lunio'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried cysylltiadau lleol a barn y rheiny sy'n dadlau dros gadw ffiniau presennol. Rydym wedi adolygu pob un o'r sylwadau a gyflwynwyd yn ofalus. Fodd bynnag, roedd rhaid pwyso a mesur yr ystyriaethau hyn yn erbyn cyfyngiadau a ffactorau statudol eraill, yn enwedig yr angen i sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a chefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol a chyfleus. Pan gynigir newidiadau i ffiniau cymuned neu ward, mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried pwysigrwydd cydraddoldeb etholiadol a thegwch democrataidd i bob etholwr.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â'r unigolion a'r sefydliadau a gyflwynodd sylwadau.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth neu safbwyntiau yr hoffech chi eu rhannu mewn perthynas â'r cynigion drafft hyn.

Rhun ap Gareth

Y Prif Weithredwr

# Adolygiadau Cymunedau dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

## Adroddiad Cynigion Drafft

## Cynnwys


1 Crynodeb o'r Cynigion Drafft ..... 4
2. Maint y Cyngor ..... 4
3. Cynnal yr Adolygiad ..... 4
4. Ystyried Cyflwyniadau ..... 5
5. Dadansoddiad ac Argymhellion Drafft ..... 5
6. Ymateb i gynigion drafft cychwynnol y Cyngor Bwrdeistref Sirol ..... 14
Atodiad 1 ..... 16

# 1 Crynodeb o'r Cynigion Drafft

**1.1** Fel prif Gyngor, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal Adolygiadau Cymunedau dan Adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"). Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad i'w weld ar wefan Conwy.

**1.2** Mae Conwy'n cynnig diwygiadau i strwythur cymunedau a wardiau cymunedol er mwyn sicrhau bod hunaniaethau lleol yn cael eu cadw a bod y trefniadau'n parhau i gefnogi systemau llywodraethu lleol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif Gyngor.

**1.3** Mae'r Cyngor wedi cynnig newidiadau i ffiniau 3 ward gymunedol o fewn ardal y prif Gyngor. O ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r ffiniau, mae addasiadau cyfatebol i drefniadau etholiadol y cymunedau dan sylw hefyd yn cael eu hargymell.

# 2. Maint y Cyngor

**2.1** Mae'r tabl isod yn dangos cymhareb Cynghorwyr i etholwyr y Cyngor Cymuned/Tref:

| Etholwyr (hyd at) | Cynghorwyr | Etholwyr (hyd at) | Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| 300 | 7 | 13,000 | 17 |
| 500 | 8 | 15,000 | 18 |
| 750 | 9 | 17,000 | 19 |
| 1,000 | 10 | 19,000 | 20 |
| 1,500 | 11 | 20,000 | 21 |
| 2,000 | 12 | 21,000 | 22 |
| 4,000 | 13 | 23,000 | 23 |
| 6,000 | 14 | 25,000 | 24 |
| 9,000 | 15 | 25,000+ | 25 |
| 12,000 | 16 | | |

# 3. Cynnal yr Adolygiad

**3.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynnal ymgynghoriad helaeth:

- Mae wedi ceisio barn a chasglu argymhellion gan gynghorau cymuned, y cyhoedd a chyrff a chymdeithasau proffesiynol.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi hyrwyddo'r Adolygiad hwn ar wefan y Cyngor ac wedi rhoi'r Hysbysiadau Cyhoeddus perthnasol i glerc pob Cyngor Tref/Cymuned er mwyn hysbysebu'r Adolygiad yn y cymunedau lleol.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd wedi cysylltu â budd-ddeiliaid yn uniongyrchol i'w gwahodd i gyflwyno cynigion ac argymhellion.

**Budd-ddeiliaid:**
Trigolion Bwrdeistref Sirol Conwy
Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorau Tref a Chymuned ym Mwrdeistref Sirol Conwy
Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi Llywodraeth Cymru
Janet Finch-Saunders, AS
Mark Isherwood AS
Darren Millar AS
Samuel Rowlands, AS
Carolyn Thomas, AS
Ysgrifennydd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd Cymru
Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Anabledd Cymru
Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy

**3.2** Cytunodd y Cyngor ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ar 22 Mai 2025.

## 4. Ystyried Cyflwyniadau

**4.1** Cafwyd cyflwyniadau gan y canlynol:

Cyngor Tref Abergele
Y Cynghorydd Ann McCaffrey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a Llanelian
Y Cynghorydd Harry Saville, Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel
Cyngor Tref Llandudno
Y Cynghorydd Louise Emery, Cyngor Tref Llandudno
Samuel Rowlands, AS

## 5. Dadansoddiad ac Argymhellion Drafft

**5.1 Cyngor Tref Abergele**

5.2 Cafodd y Cyngor un sylw ar gyfer Abergele, gan y Cyngor Tref.
Trefniadau ar gyfer Cyngor Tref Abergele, sy'n cynnwys 4 ward:

| Ward Gymunedol | Etholwyr | Rhagolygon yr Etholwyr dros 5 Mlynedd | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| Abergele Pensarn | 1925 | 2109 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pentre Mawr | 3004 | 3081 | 6 |
| Gele | 3757 | 4093 | 6 |
| Llansansiôr | 209 | 208 | 1 |

### 5.3 Ymateb Cyngor Tref Abergele

- Byddai'r Cyngor Tref yn argymell peidio â gwneud unrhyw newidiadau i wardiau Abergele.
- Mae 16 o Gynghorwyr ar gyfer maint y Cyngor yn nifer digonol i sicrhau y gall hwyluso ei is-bwyllgorau. Hyd yn oed gydag 16 o aelodau, gall fod yn anodd sicrhau aelodaeth ym mhob is-bwyllgor.
- Mae yna derfyn ar faint o waith cymunedol y gall un Cynghorydd ei gyflawni fel unigolyn. Pe bai maint yr ardal yn cael ei ehangu, gyda mwy o drigolion i'w gwasanaethu, gallai fod yn anodd iddynt gyflawni eu gwaith.
- Pe bai maint yr ardal yn cynyddu a nifer y Cynghorwyr yn gostwng, gallai hynny fod yn niweidiol i'r gymuned gyfan.
- Dylid cadw wardiau presennol y Cyngor Tref er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd llai yn cael llais.
- Fel ardal sydd ar hyn o bryd wedi'i nodi'n addas ar gyfer nifer sylweddol o dai dan y CDLl, os bydd nifer y Cynghorwyr yn gostwng, gallai'r Cyngor fod yn ceisio gwasanaethu llawer mwy o drigolion gyda llawer llai o Gynghorwyr, sy'n anghynaladwy.
- Mae'r Cyngor Tref yn credu bod nifer neu ddosbarthiad etholwyr Llywodraeth Leol y Dref yn golygu y byddai cael un etholiad ar gyfer Cynghorwyr Tref yn anymarferol neu'n anghyfleus, gan y byddai uno cymysgedd o wardiau arfordirol a gwledig yn golygu na fyddai posib bodloni anghenion y ddwy gymuned yn llawn. Byddai'r ward leiaf, sef Llansansiôr, yn cael ei heffeithio'n enwedig pe byddai'n colli ei un cynrychiolydd ac yn cael ei chynnwys o fewn ardal fwy.
- Mae'r Cyngor Tref yn fodlon gyda threfniadau'r wardiau presennol, a dylai'r dref barhau i gael ei chynrychioli gan wardiau ar wahân ar y Cyngor.
- Nid yw'n ymarferol cael un etholiad ar gyfer y dref hon o ystyried yr amrywiaeth yn yr ardal.
- Dylid parhau â'r drefn bresennol o rannu'r ardal yn wardiau Llansansiôr, Gele, Pentre Mawr a Phensarn, gan eu bod oll yn wardiau unigol iawn gyda'u demograffeg wahanol eu hunain.
- Mae'r dref yn amrywiol gyda chymysgedd o gymunedau gwledig, arfordirol, pobl wedi ymddeol a theuluoedd. Mae yna hefyd wahaniaeth yn nosbarthiadau ariannol pob ward, gyda Phensarn yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y sir, a Llansansiôr yn ardal gefnog gyda sawl eiddo mawr. Pe bai'r wardiau'n cael eu cymysgu, byddai gan bob cymuned, sydd yr un mor bwysig â'i gilydd, lai o lais.
- Nid yw'r Cyngor Tref yn cynnig unrhyw newidiadau i'r ffiniau presennol, a byddai'n argymell gadael pethau fel y maent am y rhesymau a amlinellir uchod. Mae'r

Cyngor hefyd yn ystyried y dylid parhau gyda'r un gymhareb Cynghorwyr i aelodau ward.

**5.4 Argymhellion**

- Parhau gyda'r un nifer o Gynghorwyr Tref, sef 16.
- Parhau i rannu'r dref yn wardiau.
- Cadw'r ffiniau'r un fath.

**5.5 Cyngor Tref Penmaenmawr**

**5.6** Cafodd y Cyngor un sylw gan y Cynghorydd Anne McCaffrey.

Trefniadau Cyngor Tref Penmaenmawr, sy'n cynnwys 3 ward:

| **Ward Gymunedol** | **Etholwyr** | **Rhagolygon yr Etholwyr dros 5 Mlynedd** | **Nifer y Cynghorwyr** |
|---|---|---|---|
| Capelulo | 1236 | 1286 | 5 |
| Pant yr Afon | 1559 | 1592 | 6 |
| Penmaenan | 552 | 589 | 2 |

**5.7 Ymateb y Cynghorydd Anne McCaffrey:**

- Mae gan Gyngor Tref Penmaenmawr 3 ward etholiadol:
  Dwygyfylchi: Pentref Dwygyfylchi a phentrefan Capelulo; Pant yr Afon: Tref Penmaenmawr; Penmaenan: Pentref Penmaenan.
- Mae yna resymau hanesyddol cadarn dros gadw 3 ward, ac mae yna resymau hanesyddol a daearyddol cadarn dros gadw Dwygyfylchi fel ward benodol gan fod ei demograffeg, yn ogystal ag anghenion y gymuned, yn wahanol iawn. Mae CDLl Conwy'n cydnabod y gwahaniaethau hyn a phwysigrwydd osgoi uno'r wardiau.
- Mae'n hanfodol cadw Cynghorwyr Tref sy'n benodol atebol i/am y 3 ward neilltuol hyn, er mwyn sicrhau bod yr holl anghenion amrywiol yn cael eu hystyried.
- Nid wyf yn cynnig newid, dim ond yn dadlau dros gynnal y trefniadau presennol.

**5.8 Argymhellion – Penmaenmawr**

- Parhau gyda'r un nifer o Gynghorwyr Tref, sef 13.
- Parhau i rannu'r dref yn wardiau.
- Cadw'r ffiniau'r un fath.

**5.9 Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a Llanelian**

**5.10** Cafodd y Cyngor un sylw gan Gyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a Llanelian.

**5.11** Trefniadau Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a Llanelian, sy'n cynnwys 2 ward:

| Ward Gymunedol | Etholwyr | Rhagolygon yr Etholwyr dros 5 Mlynedd | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| Betws-yn-Rhos | 555 | 602 | 6 |
| Llanelian-yn-Rhos | 318 | 323 | 4 |

**5.12 Ymateb Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a Llanelian**

- Dim newid a chynnal y sefyllfa bresennol.

**5.13 Argymhellion**

- Parhau gyda'r un nifer o Gynghorwyr Cymuned, sef 10.
- Parhau i rannu'r gymuned yn wardiau.
- Cadw'r ffiniau'r un fath.

**5.14 Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel**

**5.10** Cafodd y Cyngor un sylw gan Gyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel.

**5.11** Trefniadau Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel, sy'n cynnwys 2 ward:

| Ward Gymunedol | Etholwyr | Rhagolygon yr Etholwyr dros 5 Mlynedd | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| Dulas | 1045 | 1059 | 8 |
| Rhyd-y-foel | 334 | 335 | 3 |

**5.17 Crynodeb o ymateb Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel. Mae'r ymateb llawn i'w weld yn** Atodiad 1**.**

- **Effaith Uno'r Wardiau**: Yn gryno, mae'r sylw a gafwyd gan y Cyngor Cymuned yn nodi bod Ward Llanddulas, ers cael ei huno gyda Ward fwy Gele ar lefel y fwrdeistref sirol, yn teimlo bod ganddi lai o lais a'i bod yn cael ei hesgeuluso fel cymuned wledig lai. Mae yna bryderon hefyd mewn perthynas â diffyg llais ar lefel gymunedol, a rhoddir enghraifft o gais cynllunio diweddar a'r effaith ar y gymuned.
- **Methiannau o ran Cyfathrebu**: Mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo nad yw negeseuon pwysig yn cael eu rhannu ag ef, fel y gwaith ffordd diweddar a darfodd ar wasanaethau bysiau, gan effeithio cannoedd o drigolion.

- **Bygythiad i Ymreolaeth**: Mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo y gallai unrhyw gamau i ailstrwythuro neu uno'r Cyngor Cymuned arwain at golli hunaniaeth ac ymreolaeth leol.
- **Arwyddocâd Hanesyddol**: Mae gan y Cyngor Cymuned wreiddiau dwfn gan ei fod wedi datblygu o gymdeithas drethdalwyr, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y gymuned i hunan-gynrychiolaeth. Mae'r gymuned eisiau cydnabyddiaeth, cynrychiolaeth deg, a'r gallu i barhau i wasanaethu'r trigolion yn effeithiol, fel y mae wedi'i wneud ers 1983.
- **Llywodraethu Lleol Rhagweithiol**: Er gwaethaf ei heriau, mae'r Cyngor wedi mynd ati i gefnogi mentrau lleol, gan gynnwys cynlluniau gofal plant, clybiau ieuenctid, ymwybyddiaeth am godi baw cŵn, a monitro cyflymder.
- **Neges Greiddiol**: Mae gwir ddemocratiaeth leol yn golygu cynrychiolaeth sy'n ymgysylltu ac yn ymateb – nid penderfyniadau o'r brig i lawr nac uno gorfodol.

**5.18 Argymhellion:**

- Parhau gyda'r un nifer o Gynghorwyr Tref, sef 10.
- Parhau i rannu'r gymuned yn wardiau.
- Cadw'r ffiniau'r un fath.
- Anfon llythyr o eglurhad i'r Cyngor Cymuned i sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi diben yr adolygiad statudol.

**5.19 Cyngor Tref Llandudno**

**5.20** Cafodd y Cyngor bedwar o sylwadau mewn perthynas â thref Llandudno; 1 gan y Cyngor Tref, 1 gan y Cynghorydd Harry Saville, 1 gan y Cynghorydd Louise Emery ac 1 gan Samuel Rowlands AS.

**5.21** Mae gan y Cyngor Tref 5 ward:

| Ward Gymunedol | Etholwyr | Rhagolygon yr Etholwyr dros 5 Mlynedd | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| Craig-y-don | 2620 | 2672 | 4 |
| Gogarth | 2728 | 2807 | 4 |
| Mostyn | 2675 | 2806 | 4 |
| Penrhyn | 3840 | 3768 | 4 |
| Tudno | 3481 | 3535 | 4 |

**5.22 Ymatebion Cyngor Tref Llandudno**

**5.23** Ymatebodd y Cynghorydd Harry Saville, y Cynghorydd Louise Emery, Sam Rowlands AS a Chyngor Tref Llandudno fel a ganlyn:

- Mae tabl maint y Cyngor yn awgrymu y dylai fod gan Gyngor Tref Llandudno 19 o gynghorwyr yn 2030 ar sail rhagolygon yr etholwyr (15,588). Mae gan Gyngor Tref

Llandudno 20 o Gynghorwyr ar hyn o bryd, gyda phedwar Cynghorydd yn cynrychioli pob un o bum ward y gymuned. Mae'r wardiau hyn yn eithaf cytbwys ac mae darparu nifer gyfartal o Gynghorwyr i bob ward yn gyfleus i lywodraeth leol. Mae sawl datblygiad tai sylweddol yn yr arfaeth ar gyfer Llandudno, a bydd y rhain yn cynyddu poblogaeth y gymuned.

- Mae nifer yr etholwyr yn debygol o gynyddu yn sgil datblygiadau sylweddol sy'n debygol o gael eu creu yn wardiau Craig-y-don, Gogarth a Mostyn. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiad arfaethedig ar Abbey Road, datblygiad arfaethedig ger Gloddaeth Avenue, y datblygiad ger Gorsaf Reilffordd Llandudno a'r datblygiad yng Nghaeau Bodafon.
- Mae'r twf disgwyliedig yn y boblogaeth yn bwysig, ac mae'r ymatebwyr yn disgwyl y bydd y ffigur amcanol hwn o >15,500 ar gyfer 2030 yn uwch na hynny. Dyma rai rhesymau am hyn:
    - Mae yna sawl datblygiad tai sylweddol ar y gweill neu yn yr arfaeth ar gyfer Llandudno a fydd yn cynyddu nifer etholwyr y gymuned. Mae'r Cyngor wedi nodi amcanestyniadau CDLl a chyfleoedd ehangu yn y dyfodol.
    - Mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod eiddo a arferai fod yn eiddo busnes, fel gwestai, yn cael eu trawsnewid yn eiddo preswyl, a'r nifer gynyddol o ail gartrefi yn yr ardal.
    - Mae angen ystyried y cynigion i ostwng oed pleidleisio etholwyr i 16, a fydd yn cynyddu'r gofrestr etholiadol.
- Er bod cymhareb y Cynghorwyr wedi'i seilio ar nifer yr etholwyr, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i faint y boblogaeth, sy'n fwy. Mae Cynghorwyr Tref yn cael eu cynnwys yn rhan o faterion lleol a materion twristiaid a thwristiaeth yn yr ardal, er nad ydynt yn uniongyrchol gyfrifol am y materion hyn. Fel cyrchfan wyliau, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i fwy o bobl na'r etholwyr yn unig; maent yn darparu ar gyfer y boblogaeth ehangach ac ymwelwyr.

**5.24 Argymhellion**


- Parhau gyda'r un nifer o Gynghorwyr Tref, sef 20.
- Parhau i rannu'r dref yn wardiau.
- Ar sail adborth yr Aelodau lleol, diwygio'r ffiniau fel y manylir isod i hwyluso trefniadau llywodraethu lleol effeithiol a chyfleus.
- Mae Conwy'n cefnogi'r cynnig hwn am ei fod yn gwella hygyrchedd a hwylustod pleidleisio i'r etholwyr. Dan y trefniadau presennol, yr orsaf bleidleisio ddynodedig ar gyfer y datblygiad tai newydd ym Mostyn fydda'r Trinity Centre (a nodir gan y sgwâr glas yn Ffigur 1). Fodd bynnag, pe bai'r ffin yn cael ei diwygio, byddair etholwyr yn cael mynd i Ganolfan Gymunedol Tŷ Hapus (a nodir gan y sgwâr melyn yn Ffigur 1), a ystyrir yn lleoliad mwy cyfleus.

**5.25 Cynnig 1 – Newidiadau Arfaethedig i Ffin Wardiau Mostyn a Tudno**

- Mae'r ardal sydd wedi'i lliwio'n las ar y map isod (Ffigur 1) yn ddatblygiad tai newydd sylweddol (78 annedd), a fydd yn dod o fewn ward bresennol Mostyn. Bydd y fynedfa i'r datblygiad hwn wedi'i lleoli oddi ar Builder Street, sy'n golygu y bydd yn amhosib mynd at y datblygiad ar hyd y ffordd heb deithio i mewn i ward Tudno. Mae hyn yn groes i ofynion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer trefniadau llywodraethu lleol effeithiol a chyfleus. Cred resymol nifer o bobl yw bod y darn hwn o dir yn dod o fewn ward Tudno. Stad ddiwydiannol Cae Bach yw'r ardal sydd wedi'i lliwio'n wyrdd. Ar hyn o bryd, mae hanner y stad o fewn ward Mostyn, a'r hanner arall o fewn ward Tudno. Ni ellir mynd i'r stad heb deithio drwy ward Tudno. Unwaith yn rhagor, nid yw hyn yn hwyluso trefniadau llywodraethu lleol effeithiol a chyfleus, a chred resymol nifer o bobl yw bod y darn hwn o dir yn dod o fewn ward Tudno. Mae'r rheilffordd yn nodwedd dopograffig fwy amlwg ac adnabyddadwy a fyddai'n ffin ward fwy ymarferol.

  Mae'r ffin bresennol rhwng wardiau Mostyn a Tudno yn dilyn y llinell binc ar y map isod. Y cynnig yw symud y ffin i'r llinell goch:

**Ffigur 1**



**5.26 Argymhellion – Symud y Ffin rhwng wardiau Mostyn a Tudno**


- Symud y ffin rhwng wardiau presennol Mostyn a Tudno o'r lleoliad presennol i ochr ddeheuol Gorsaf Reilffordd Llandudno ac ochr ddeheuol y rheilffordd rhwng yr Orsaf a Phont Maesdu, gan gynyddu maint ward Tudno.
- Mae Conwy'n cefnogi'r cynnig hwn am ei fod yn gwella hygyrchedd a hwylustod pleidleisio i'r etholwyr. Fel y mae'r ffiniau ar hyn o bryd, Trinity Centre (y sgwâr glas yn Ffigur 1) fyddai gorsaf bleidleisio Mostyn ar gyfer y datblygiad tai newydd, ond pe bai'r ffin yn cael ei symud, byddai'r orsaf bleidleisio yn fwy hygyrch am y byddai wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Hapus (y sgwâr melyn yn Ffigur 1).

**5.27 Cynnig 2 – Newid Arfaethedig i'r Ffin rhwng Wardiau Craig-y-don a Tudno**

**Mae Cyngor Tref Llandudno yn argymell:**

- Ad-drefnu'r ffin rhwng wardiau Craig-y-don a Tudno i ddilyn Clarence Crescent yn hytrach na Clarence Drive (Ffigur 2).
- Mae ffin bresennol y ward i'w gweld mewn coch yn Ffigur 2.  Mae'r Cyngor Tref yn ystyried y byddai'n fwy rhesymegol pe bai'n rhedeg o gylchfan Gwesty'r Links ar hyd Clarence Crescent, sydd i'w weld mewn melyn ar y map (Ffigur 3).

Ffigur 2



COMMUNITY REVIEW QUESTIONNAIRE
Q7: CHANGES TO WARD BOUNDARIES: CRAIG Y DON
LLANDUDNO
The Parade
Victoria Avenue
Victoria Street
Mostyn Avenue
Carmen Sylva Road
Nant y Gamar Road
Ysgol y Gogarth
Park Avenue
Park Lane
Queen's Road
Craig-y-Don
Ysgol Craig y Don
Clarence Crescent
Mostyn Broadway
Charlotte Road
Tudor Road
Conway Road
Augusta Street
Trinity Square
Cwm Road
Ysgol Morfa Rhianedd
Lon Cymru
Kingsway

**Ffigur 3**

**Y Ffin Newydd a gynigir mewn melyn**




**5.28 Argymhellion – Newid Ffin wardiau Craig-y-don a Tudno**

- Symud y ffin i Clarence Crescent yn hytrach na Clarence Drive. Drwy wneud hynny, byddai 347 yn fwy o etholwyr yn ward Craig-y-don, gan roi cyfanswm o 2967. Byddai cyfanswm etholwyr ward Tudno'n gostwng o 3481 i 3134.
- Mae Conwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn gan fod Clarence Crescent yn ymddangos yn ffin fwy naturiol, a gan y byddai addasu'r etholaeth yn arwain at well cydraddoldeb etholiadol. Fel rhan o'r adolygiad nesaf o orsafoedd pleidleisio, bydd y Cyngor yn adolygu'r trefniadau presennol i weld a oes posib gwneud gwelliannau o ran lleoliad a hygyrchedd.

## 6. Ymateb i gynigion drafft cychwynnol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

**6.1** Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn croesawu unrhyw gyflwyniadau neu sylwadau am ei gynigion drafft cychwynnol, a dylid anfon y rhain yn ysgrifenedig at:

Mrs Sian Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Cyflwyniadau Adolygiad Cymunedau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG
neu dros e-bost i etholiadol@conwy.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer anfon cyflwyniadau ar gyfer ail gam hwn yr adolygiad yw **dydd Gwener 28 Tachwedd 2025**.

## Atodiad 1

2 July 2025

**Democratic Services**
Conwy County Borough Council
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Dear Sir/Madam,

**A Plea for Fair Representation and Respect for Our Community**

I'm writing to you on behalf of Llanddulas and Rhyd-y-Foel Community Council.

Three years have passed since the Llanddulas Ward was merged with the much larger Gele Ward, and the consequences are hitting us harder than ever. What was once a vibrant, locally represented community is now struggling to be heard. Our voice within Conwy County Borough Council has been steadily fading.

We are small, rural communities with very real needs, needs that are increasingly being overshadowed or ignored. Although we technically have three County Councillors, most of their time and focus understandably goes to the more populous Gele area. The councillors have genuinely tried their best to support us, and we're grateful, but the reality is clear: our residents are being left behind. More and more, it feels like we're being treated as third-class citizens in our own county.

One stark example of this disconnect was the 2018 planning application to redevelop the car park of the Fairview Inn on Abergele Road into 25 flats and 27 parking spaces. The local community, and this Council, were passionately against it. People were outraged. This was one of only two pubs left in the village and the only place in the whole of Llanddulas that served food. It wasn't just a pub; it was a vital social and economic hub for both locals and the 35,000+ visitors who come to our Welsh villages every year.

Yet despite this overwhelming opposition, the application was approved. On the Planning Committee that day were two County Borough Councillors from Abergele and one from Llysfaen, all three abstained from the vote. That silence allowed the development to pass. It has had a huge impact on the local medical centre, schools and public services across Llanddulas, Llysfaen and Abergele.

On occasions vital information is not communicated to us as a Community Council. This lack of communication is making it harder and harder to serve our community properly. A recent example was the significant roadworks along Abergele Road, we weren't notified and were left fielding frustrated questions from residents, including holidaymakers, who assumed we had been consulted. Six key bus stops were closed, affecting at least 350 residents a day, many of whom are elderly or have limited mobility. For some, this wasn't just an inconvenience, it affected their independence.
Now, adding to our growing concerns, we have been made aware that discussions are taking place about potentially changing the structure of our Community Council. As has happened repeatedly over the past 20 years, this inevitably sparks talk of dissolving it altogether or merging with Abergele Town Council or Llysfaen Community Council. Such a move would be deeply damaging. It would take away the limited autonomy we still hold and erase the unique historical identity we've fought so hard to maintain.
These villages are not just dots on a map. They are living, breathing Welsh communities with character, history and pride. Our Community Council was built from the ground up, evolving from a ratepayers' association into a respected local body, because we knew our residents needed and deserved their own voice.
We're not passive. We act. When Conwy CBC withdrew funding from the local playscheme, our Council stepped in and created an affordable childcare scheme in partnership with two local youth groups. We support local organisations, youth clubs and voluntary groups. We helped launch the Dog Fouling Awareness Project alongside Conwy CBC, and we introduced Community Speed watch with North Wales Police, all initiatives born from listening to local people and responding to what matters most to them.
This is what true local democracy looks like. Not top-down decision-making. Not sweeping changes or mergers. Not silence in the face of critical votes. But real, engaged representation, working for the people we serve.
We're not asking for special treatment. We're asking to be seen. To be heard. And to be allowed to continue doing what we've been doing successfully since 1983.

So please, we urge Conwy County Borough Council to:

- **Review** the impact the Gele/Llanddulas ward merger has had;
- **Improve** communication and engagement with Community Councils across the County;
- **Reject** any move to change, dissolve or merge Llanddulas and Rhyd-y-Foel Community Council;
- **Restore** fair and equal representation for smaller, rural communities like ours.

We would welcome the opportunity to meet with you and speak face-to-face about how we can move forward together. Our community deserves nothing less.

Yours faithfully,

**Jeff Warren**
Clerk to the Council
Llanddulas and Rhyd-y-Foel Community Council